CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, **Nos Lun 13eg o Fedi 2021 am 6.30y.h.** trwy Gyfrwng TEAMS.

PRESENNOL :	Cyng. Margaret Thomas	-	Cadeirydd
	Cyng. Eleri Lloyd Burns		Cyng. Ieuan G. Davies
	Cyng. Arwel Môn Hughes		Cyng. Victor Hughes
	Cyng. Henry D. Jones		Cyng. Jamie Jones
	Cyng. John Lee		Cyng. J. Huw Owen
	Cyng. Non W. Parry		Cyng. Christine Roberts.
HEFYD YN BRESENNOL :	Cyng. Dylan Rees	-	Cynghorydd Sir
	Mr. H. Rhys Parry	-	Clerc
	Ms. Linda Powell	-	Cymhorthydd Clerigol.

Cadeirydd yn croesawu'r Aelodau i'r Cyfarfod yn dilyn cyfnod gwyliau Mis Awst

21/065 **YMDDIHEURIADAU :** Cyng. Gwenan Ll. Evans, Cyng. Terry Jones, Cyng. J. Egryn Lewis, Cyng. Richard Parry.

21/066 **DATGANIAD O DDIDDORDEB :** Dim.

21/067 **SEDDI GWAG – WARD CYNGAR A WARD TUDUR**

Cadeirydd yn croesawu'r ddau Aelod newydd eu hethol , sef, Eleri Lloyd Burns a Henry D. Jones, ac yn diolch i'r ddau am ymuno ar y Cyngor Tref, ac yn dymuno yn dda iddynt yn eu swydd fel Cynghorydd.

Cadeirydd yn gofyn i'r ddau Aelod gwblhau'r Ffurflen Datganiad Derbyn Swydd a'i danfon yn ôl i'r Swyddfa a hefyd derbyn Pecyn Llawlyfr Cynghorydd, trwy'r Swyddfa.

21/068 **HEDDLU GOGLEDD CYMRU :** Dim Cynrychiolydd.

Cynghorydd Sir, Dylan Rees yn cadarnhau ei fod wedi tynnu sylw Swyddog Heddlu Gogledd Cymru fod PCSO's ardal Llangefni ddim wedi mynychu Cyfarfod Llawn, ers misoedd, er gwaethaf derbyn gwahoddiad. PCSO Lee Monk ddim ar ddyletswydd heno i ymuno yn y Cyfarfod.

21/069 **I DDERBYN CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD LLAWN 12.07.2021**

Cadeirydd yn adrodd fod yr Aelodau wedi cael cyfle o flaen llaw i edrych trwy'r Cofnodion uchod. Clerc yn cadarnhau fod dim ymholiadau/cwestiynau wedi eu derbyn trwy'r Swyddfa.

Yn dilyn yr uchod, Cyng. Non W. Parry yn Cynnig a Cyng.Victor Hughes yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion.

21/070 **I YSTYRIED MATERION YN CODI O GOFNODION 12.07.2021**

Cadeirydd yn datgan, os bu unrhyw faterion yn codi o'r Cofnodion uchod, gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu drwy'r Swyddfa, o flaen llaw, i arbed amser yn ystod y cysylltiad TEAMS.

Cadeirydd yn adrodd fod Cyng. J. Egryn Lewis wedi ymweld â'r Swyddfa, o flaen y Cyfarfod i ddanfon llythyr yn ymwneud a materion Cynllunio. Clerc i adrodd ymhellach o dan Eitem 21/073 o'r Rhaglen.

PARHAD 21/070

Eitem 21/056.1(a) Lawnt Bowlio/Maes Chwarae Lon Las – Cadeirydd yn ail-edrych ar y ffaith fod Cyng. Jamie Jones wedi tynnu sylw, yn y Cyfarfod Llawn ddiwethaf, fod golwg yn y safleoedd uchod, a dim wedi cynnig eglurhad i gefnogi ei gwyn. Yn dilyn hyn, bu Cyng. Terry Jones a Cyng. Margaret Thomas i ymweld â'r safle, ac wedi methu gweld unrhyw flerwch. Cadeirydd yn adrodd ymhellach bydd Cyfarfod o Is-bwyllgor y Fynwent a Meysydd Chwarae yn cael ei gynnal yn ystod yr wythnosau nesaf, pan fydd cyfle i drafod cau Giatiau'r ardal uchod ar ddiwedd bob prynhawn. Bu awgrymu hyn mewn ymdrech i osgoi ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal yma, gyda dim mynediad i neb ar ôl 4.00 y.h.
Cyng. J. Jones yn ymateb ei fod am alw i mewn i'r Swyddfa i esbonio ynglŷn â'r cwyn uchod.
Mynwent, Lon Newydd – Clerc wedi derbyn e-bost gan ymwelwyr diweddar i'r Fynwent, yn canmol y safon uchel iawn o gynnal a chadw'r lawnt a'r beddi, ac yn cyfeirio at waith ardderchog y Tirmon.

21/071 CYNLLUNIO

1 I DDERBYN PENDERFYNIADAU AELODAU'R IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO AR YMGYNGHORIADAU CYNLLUNIO – GORFFENNAF AC AWST 2021
Cadeirydd yn esbonio'r broses o anfon yr Ymgynghoriadau Cynllunio ymlaen at Aelodau'r Is-bwyllgor Cynllunio. Bydd yr Aelodau yn cytuno ar benderfyniad, sydd wedyn yn cael eu hanfon ymlaen at Adran Cynllunio'r Cyngor Sir. **Derbyn**

21/072 I DDERBYN UNRHYW GYFATHREBION GAN Y MAER
Cadeirydd yn datgan cyfnod distaw iawn yn ystod y misoedd diwethaf.

1 Clwb Pêl Droed - Agor Digwyddiad "Summer Soccer School" 02.08.2021
Cadeirydd yn adrodd fod yr Achlysur uchod wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda chyfle ardderchog i blant ymuno a chymdeithasu trwy chwarae Pêl Droed. Presenoldeb yr Heddlu yn ystod y cyfnod yn fanteisiol i hyrwyddo ymddygiad da i'r plant.

21/073 MATERION YN CODI GAN AELODAU

1 Cyng. J. Egryn Lewis – Eitem 21/071.1 – Cynllunio
Cadeirydd yn cyfeirio at lythyr wedi ei dderbyn gan Cyng. Lewis yn datgan pryder o ddiffyg manylion yn ymwneud a phenderfyniadau'r Is-bwyllgor Cynllunio, trwy'r broses bresennol. Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau o'r rheol mai Is-bwyllgor Cynllunio ydyw'r unig Bwyllgor gydag awdurdod i wneud penderfyniadau heb ymgynghori gyda'r Cyfarfod Llawn. Yn dilyn yr uchod, awgrymwyd fod Aelodau'r Is-bwyllgor Cynllunio yn cyfarfod yn fisol, o hyn ymlaen, gyda chofnod yn cael ei nodi.
Yn dilyn trafodaeth, barn rhai o'r Aelodau ydyw, ei fod yn amser erbyn hyn i ail-gynnal Cyfarfodydd o'r Is-bwyllgorau, fel yn y gorffennol, ac ystyried cyfarfod wyneb yn wyneb. Cyng. Ieuan Davies a Cyng. Christine Roberts ddim yn teimlo yn gyfforddus i wneud hyn yn y cyfnod ansicr yma oherwydd bod niferoedd COVID-19 yn cynyddu eto.
Cyng. Victor Hughes yn awgrymu gwelliant i'r drefn bresennol o weithredu'r Ymgynghoriadau Cynllunio wrth gydlynu gydag Aelodau'r Is-bwyllgor a chynnal cyfarfod trwy gyfrwng TEAMS.
PENDERFYNWYD - I drefnu cyfarfod o'r Is-bwyllgor Cynllunio trwy Gyfrwng TEAMS yn fisol o hyn ymlaen.

21/074 **ADRODDIAD Y CLERC**

Clerc yn adrodd ar y canlynol :

1 **Mynwent Newydd – Tir Penlan –** Dim wedi symud ymlaen llawer yn y chwe wythnos diwethaf. Adroddiad Cwmni CDS wedi ei dderbyn a'r bwriad ydyw i drefnu Cyfarfod o Is-bwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae, yn ystod yr wythnosau nesaf, gyda gwahoddiad i'r Asiant fynychu. Bydd cyfle yn ystod y Cyfarfod i drafod cynnwys yr Adroddiad ac adrodd yn ôl i'r Cyfarfod Llawn. **Derbyn.**

2 **(a) Safle'r Orsedd -Tir Ger Home Bargains** – Wedi cyfarfod ar y safle gyda Swyddogion y Bwrdd Iechyd sydd wedi cytuno i drin y ffens ar ymylon y safle. Disgwyl Cytundeb swyddogol i'w arwyddo ac wedyn symud ymlaen yn fuan i dacluso'r cae. **Derbyn.**

(b) Rhosmeirch - Cysgodfan Bws - Llythyr wedi ei anfon at Gyngor Sir Ynys Môn yn gofyn am fwy o fanylion ynglŷn â mabwysiadu'r Cysgodfan Bws, dim ymateb wedi ei dderbyn. Erbyn hyn, mae'r Cysgodfan Bws wedi ei osod yn ei le. **Derbyn.**

(c) Safle Cae Criced - Cyfreithiwr y Cyngor Tref wedi cadarnhau fod y Bargyfreithiwr wedi derbyn y wybodaeth gan Gyfreithiwr yr Ymddiriedolwyr i symud ymlaen gyda throsglwyddo'r Cae i feddiant y Cyngor Tref. **Derbyn.**

(d) Noson Troi'r Goleuadau Nadolig Ymlaen – Nos Wener 3ydd o Ragfyr 2021. Oherwydd amgylchiadau Covid-19, ar hyn o bryd, nid oes unrhyw Adloniant wedi ei drefnu ar gyfer y Noson. Diweddariad gan y Clerc yn y Cyfarfod Llawn nesaf.**Derbyn.**

(e) 14.11.2021 – Sul y Cofio - Cadeirydd yn adrodd fod Cyfarfod wedi ei gynnal yn ddiweddar gyda Threfnydd yr Orymdaith. Oherwydd ansicrwydd niferoedd Covid-19 eleni, bydd yr Orymdaith ar raddfa llai nac yn y gorffennol, a'r Swyddfa yn y broses o ddod a'r trefniadau at ei gilydd. Mwy o wybodaeth yn y Cyfarfod Llawn nesaf.

21/075 **ADRODDIAD PWYLLGORAU ALLANOL**

1 **Cyfarfod Cyngor Coleg Llangefni 20.05.2021 –** Dim Trafodaeth;

2 **Fforwm Cyswllt Cynghorau Thref a Chymuned 22.01.2021 & 21.07.2021 –** Aelodau wedi derbyn y Cofnodion – Dim Trafodaeth.

21/076 **CYLLID**

1 **I Dderbyn Mantolen Ariannol Gorffennaf ac Awst 2021**

Cadeirydd yn adrodd, os bu unrhyw gwestiynau yn codi o'r Mantolau Ariannol uchod, gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod, i arbed amser yn ystod y cysylltiad TEAMS. Clerc yn cadarnhau fod dim cysylltiad wedi bod trwy'r Swyddfa.

Mantolen Gorffennaf : 05.07.2021 / 08.07.2021 - Cyflog - Cyng. Christine Roberts yn holi am y rheswm fod dau daliad. Clerc yn esbonio fod diffyg yn y taliad cyntaf i Weithiwr newydd.

Mantolen Gorffennaf : 29.07.2021 - Cyngor Sir Ynys Môn - Treth Afon Cefni

Cyng. J. Huw Owen yn holi ynglŷn â'r taliad uchod. Clerc yn esbonio ei fod yn ddyledus am y rhan o'r Afon o dan gyfrifoldeb y Cyngor Tref, sef, yn rhedeg o'r Grisiau yn Faes Parcio Neuadd y Dref tuag at y Bont Cerdded gyferbyn a'r llyfrgell.

PARHAD 21/076

Yn dilyn yr uchod, Cyng. Christine Roberts yn Cynnig a Cyng. Non W. Parry yn Eilio I dderbyn y Mantolau Ariannol.

PENDERFYNWYD derbyn Mantolen Ariannol Misoedd Gorffennaf ac Awst 2021.

2 **Archwiliad Mewnol 2021/2021 - Cyngor Gwynedd -** Cadeirydd yn adrodd fod yr Archwiliad wedi ei gynnwys yn Becyn Rhaglen y Cyfarfod Llawn yma, er gwybodaeth i'r Aelodau, o flaen y Cyfarfod.

Clerc yn datgan, yn dilyn derbyn yr Adroddiad uchod, sydd yn cadarnhau fod trefn cadw cyfrifon y Cyngor Tref yn unol â gofynion statudol y Llywodraeth. Yn gasgliad yr Archwilwyr fe gyfeiriwyd at 4 pwynt penodol sydd angen sylw.

Clerc yn arwain yr Aelodau trwy'r 4 pwynt uchod ac yn esbonio'r Rhestr Gwaith fel ymateb i'r Awdit Mewnol.

BDO Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth I ben ar 31 Mawrth 2021

Yn dilyn yr uchod, mabwysiadwyd Ffurflen y BDO a fydd yn cael ei harwyddo gan y Cadeirydd a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol, cyn diwedd y mis.

PENDERFYNWYD gweithredu'r uchod, ac arwyddo Ffurflen Flynyddol BDO ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, a'i hanfon ymlaen.

3 **IRPW - Ymgynghoriad Drafft Panel Taliadau Annibynnol Cymru 30.07.2021**

Ymateb Un Llais Cymru 26.08.2021 wedi ei anfon at yr Aelodau yn Becyn Rhaglen Llawn y Cyfarfod yma - Dim Trafodaeth.

20/077 **ADRODDIAD MISOL CYNGOR SIR YNYS MÔN**

Cynghorydd Sir, Dylan W. Rees yn adrodd ar y canlynol :

- Llongyfarch Cyng. Eleri Lloyd Burns a Cyng. Henry D. Jones ar eu cyfethol ar y Cyngor Tref a dymuno yn dda iddynt yn eu swydd newydd;
- Niferoedd COVID-19 yn gwaethygu a'r sefyllfa yn parhau i fod yn fregus;
- Gollyngiad cemegol yn Ffactri 2 Sisters – fel rhagofalon, bu anfon rhai o'r gweithwyr i Ysbyty Gwynedd;
- Pwyllgor Gwaith – Ysgol Corn Hir / Ysgol Talwrn – Mabwysiadu a bwrw ymlaen gyda'r cynlluniau;
- Llwyddiannus o gael cyllideb grant gan Lywodraeth Cymru i wella systemau draenio ;
- Yn dilyn cyflwyniad gan Gynrychiolydd Heddlu Gogledd Cymru i sesiwn Briffio Cynghorwyr Cyngor Sir, tynnwyd sylw fod PCSO's ddim wedi mynychu Cyfarfodydd Llawn y Cyngor Tref ers llawer o fisoedd. Er gwaethaf hyn, wedi methu cael presenoldeb PCSO yng nghyfarfod heno chwaith.

21/078 **GOHEBIAETH A MATERION NEWYDD**

1 **Cyngor Sir Ynys Môn :**

(a) Pwyllgor Safonau : Newyddlen Pwyllgor Safonau ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned - Mehefin 2021

(b) Adroddiad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn ar Gofrestrau Diddordebau Cynghorau Thref a Chymuned – Paratowyd yr Adroddiad ym Mehefin 2021

Atodwyd y dogfennau hunain esboniadwy uchod, i Raglen y Cyfarfod Llawn yma, er gwybodaeth/sylw'r Aelodau.

Cadeirydd yn annog y ddau Aelod newydd i fynychu Cyrsiau rhithwir, yn ymwneud a'r uchod, pan fydd y cyfle yn codi. Unrhyw gwestiynau i'w cyfeirio at y Swyddfa. Dim Trafodaeth.

PARHAD 21/078

2 **Cyngor Sir Ynys Môn - Ffermydd Solar - E-bost 28.07.2012**

3 **Cyngor Sir Ynys Môn - Gwella Teithio Llesol ar Ynys Môn - Llythyr 20.07.2021**

4 **Cyngor Sir Ynys Môn - Gwahardd Traffig Trwodd Dros Dro, Lon Glanhwfa**
Gohebiaeth uchod wedi ei anfon i fynegi barn/er gwybodaeth. Dim Trafodaeth.

5 **Cyfraniadau 2020/2021 –** Llythyr o ddiolch wedi ei dderbyn gan Fudiad RELATE.

21/079 **GOHEBIAETH : ER GWYBODAETH – Materion wedi eu hanfon trwy E-bost yn ystod Gorffennaf ac Awst 2021**

1 **Un Llais Cymru** - **Derbyn**

2 **Materion Eraill** - **Derbyn.**

21/080 **I YSTYRIED UNRHYW FATER BRYS GAN Y MAER**

1 **Clwb Bowlio, Safle Lôn Las -** Cadeirydd yn adrodd ei bod wedi cael trafodaeth gyda Gynrychiolydd Clwb Bowlio, sydd yn awyddus i fuddsoddi mewn cynnal a chadw'r Lawnt Bowlio i'w godi i safon uwch. Cadeirydd yn awgrymu rhoi cyfraniad, trwy'r Cyngor Tref, tuag at y gwaith o warchod a diogelu'r safle.
PENDERFYNWYD trafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf Is-bwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae.

2 **Rhestr o Is-bwyllgorau Cyngor Tref Llangefni**
Clerc yn arwain yr Aelodau trwy'r Rhestr o'r Is-bwyllgorau, sef :

- Is-bwyllgor Cyllid/Amcanion Cyffredinol
- Is-bwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae (Cynnwys Cyng. Henry D. Jones a Cyng. Eleri Lloyd Burns)
- Is-bwyllgor Cynllunio ;
- Is-bwyllgor Staffio a Safonau.

Rhestr Diweddarid o Fanylion Cyswllt Aelodau'r Cyngor Tref
Bydd y Cymhorthydd Clerigol yn anfon Rhestr diweddari o'r uchod i'r Aelodau yn ystod y dyddiau nesaf.

3 **Tŷ Clwb, Safle Pêl Droed, Lon Talwrn**
Cyng. John Lee yn holi ynglŷn â chyflwr presennol y Tŷ Clwb, wrth gofio ei fod wedi cael ei 'condemnio' o'i ddefnyddio yn y gorffennol. Cyng. Victor Hughes yn ymateb fod Rheolwr/Cynrychiolydd y Clwb Pêl Droed wedi ail feddwl ac wedi mynd ymlaen i wella'r adeilad a'i ail-ddefnyddio. Cyng. Hughes yn ychwanegu fod gwariant mawr, o dan gyfrifoldeb y Clwb Pêl Droed, wedi eu gwneud i'r Tŷ Clwb, ac yn falch iawn o'i ddefnydd presennol.
Cadeirydd yn datgan ei bod yn edmygu'r gwaith caled sydd wedi mynd ymlaen i wella'r Tŷ Clwb a'i fod o fudd i'r Gymuned. Cyng. Christine Roberts yn adrodd fod yr Adeilad nawr yn cael ei ddefnyddio hefyd ar gyfer Cyfarfodydd.

Cadeirydd yn diolch i'r Aelodau am eu mewnbwn ar yr Eitem uchod.

21/081 **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - Nos Lun 11eg o Hydref 2021.**

CYNG. MARGARET THOMAS – CADEIRYDD